
# Cwmni

Papur Bro Sir Caerffili

Rhifyn 183 | Pris 80c | Mis Mehefin 2016

Fel y gŵyr darllenwyr Cwmni, mae hen Ysbyty'r Glowyr yng Nghaerffili wedi agor o'r newydd fel canolfan gymunedol ers mis Hydref diwethaf. Un o'n dulliau mwyaf effeithiol o greu cysylltiadau yn y gymuned yw ein perthynas agos ag ysgolion yr ardal. Mae ein Llysgenhadon Ysgol yn gwneud cyfraniad pwysig a sylweddol i ddatblygiad Canolfan y Glowyr ac yn ddiweddar cawsant y dasg o gynllunio baner ar ein cyfer, yn dilyn patrwm. baneri'r pyllau glo yn y dyddiau gynt.




Cafwyd sesiwn fywiog yn astudio rhai o'r baneri hyn a'r math o symbolau a geiriau oedd arnynt; edrychwyd ar luniau o Gala'r Glowyr ac o lowyr yn gorymdeithio nôl i'r gwaith yn dilyn streic 1984-85 gan gario'u baneri â balchder. Aethpwyd ati'n frwdfrydig i hel syniadau ar gyfer baner addas i Ganolfan y Glowyr. Rhaid oedd cael llun glöwr ynghyd â'i lamp a'i offer, roedd angen cyswllt â Chaerffili a rhywbeth i 'n hatgoffa o ysbyty'r gorffennol a'r cynlluniau ar gyfer dyfodol y ganolfan. Cafwyd cynlluniau arbennig o dda gan y Llysgenhadon yn dangos gwreiddioldeb a dealltwriaeth o gefndir yr adeilad.

Y sialens wedyn oedd rhoi'r gwahanol elfennau ynghyd a buom yn ffodus iawn o gael cymorth Amanda Pritchard, cyn-ddisgybl o Ysgol Cwm Rhymni sy'n gweithio fel dylunydd i elusen Tenovus. Y canlyniad oedd y faner liwgar a welir uchod – dim ond cynllun yw ar hyn o bryd ond bwriedir gwneud baner go iawn ac efallai y gwelir y Llysgenhadon yn gorymdeithio trwy Gaerffili yn cario'r faner ar ddiwrnod agoriad swyddogol y ganolfan. Ond stori arall yw honno....... .

Cwmni

Noddir gan **Lywodraeth Cynulliad Cymru**


Y PWYLLGOR A'R SWYDDOGION

**Cadeirydd:** Robert Dutt **Ymgynghorydd:** Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

**Golygydd:** Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

**Ysgrifennydd Cofnodion:** Ann Lewis **Golygydd Lluniau:** Mary Jones

**Cynorthwy-ydd:** Jan Penney **Digwyddiadur:** Lowri Jones Lowri@mentercaerffili.org

**Ieuenctid:** Morgan Roberts Swyddog Prosiect Llais, Menter Caerffili

**Pwyllgor:** Eleri Betts, Eirlys Thomas, Dafydd Islwyn, Tamsin Graves a Gareth W.Willliams


**Croesawir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cyn cyhoeddi.**

**Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.**

Argraffir gan Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas , Caerffili, CF83 8DW

## Teyrnged Elwyn Parri i'r Parchedig Shem Howell Morgan, Gweinidog Eglwys Llanfaches, Penhow a fu farw ym mis Ebrill yn 95 oed.



Hen emyn Ieuan Gwynedd yw "Mae 'nghyfeillion adre'n myned", ac felly teimlaf wrth golli cyfaill annwyl oedd yn seraff bregethwr. Hysbysiad annisgwyl amdano mewn ychydig linellau. Yn wir, rhoddwyd y nesaf peth i ddim am ei hanes, ychydig o'i dras, dim am ei ddawn na'i allu ond, ac wedi dweud hyn i gyd, fe allaf grynhoi mewn un datganiad byr, pendant, ac yn hawdd ei gofio - *"He counted".*

Deuthum i'w adnabod yn 2005 mewn cyfarfod yn dathlu achlysur gan Gymdeithas Dr Barnado ac fe ddaethom yn ffrindiau ar unwaith. Roedd anwyldeb yn perthyn iddo ac fel roedd mam yn arfer dweud am berson, "Rhywbeth yn agos i chi."

Fe ddaeth ar hyd y blynyddoedd yn *"must"* ar lyfr bach pregethwyr Cwm yr Aber ac yn ffefryn yn y pulpud a'r cyfeillgarwch mynwesol â'r gynulleidfa. Roedd yn feistr ar adeiladu pregeth a'i thraddodi'n syml gyda pharch a chariad at ei Waredwr. Yn ein hymgom fe soniai am y Parch D. Miall Edwards a'i ddylanwad arno. Cofiai am y cyngor gafodd: "Pan wyt yn gwneud pregethau, cofia fynd drostynt dro ar ôl tro a myfyrio arnynt a, mwy pwysig, eu byw." Clywais dros y blynyddoedd am ei ofal a'i gymwynasgarwch ac amdano yn "llewyrchu gerbron dynion" ac yn bregethwr coeth, yn fugail effro. Bydd yn golled yn ei henaint ac yn golled i lawr yng Nghwm yr Aber. O'n rhan i, gellid torri peth salach ar garreg ei lwch na'r geiriau syml iawn: "Roedd e'n cyfrif".

# Cystadleuaeth Genedlaethol Cerddor Ifanc Rotari




Llongyfarchiadau i Heledd Gwynant ar ddod yn ail yn Rownd Derfynol Cystadleuaeth Genedlaethol Cerddor Ifanc y Rotary a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Telford.

Enillodd Heledd bedair cystadleuaeth flaenorol er mwyn cyrraedd y ffeinal ar lefel Brydeinig gan ennill y brif wobr ar lefel clwb, ardal y Cymoedd, ardal De Cymru a rhanbarth Canolbarth Lloegr.




O'r 6,500 o gerddorion a fu'n cystadlu ar draws Prydain, daeth 8 yn unig i'r brig gan fynd benben yn  y ffeinal i gystadlu am y brif wobr.

Chwaraeodd Heledd raglen amrywiol ar y marimba, y xylophone a'r drymiau, gan dderbyn clod uchel gan y beirniaid a'r ail wobr yn y gystadleuaeth.  Diolch i Mr Rhydian Lake am gyfeilio ar y piano ac i Mr Lake a Mrs Bethan Philips am eu cefnogaeth drwy'r gystadleuaeth.

# Cystadleuaeth Cerddor Ifanc Gregynog




Bu Heledd hefyd yn llwyddiannus wrth gyrraedd ffeinal Cystadleuaeth Cerddor Ifanc Gregynog ddechrau Mis Ebrill. Enillodd y categori i delynnau,gitars ac offer taro a'i choroni yn "*Gregynog Young percussionist of the Year*" cyn mynd ymlaen i gystadlu yn y ffeinal yn erbyn y 4 enillydd arall o'r categoriau piano, pres, llinynnau a chwythbrennau.

Chwaraeodd Heledd raglen o 20 munud gan gynnwys darnau allan o concertos i'r marimba a'r xylophone.

Mae Heledd yn ddisgybl blwyddyn 12 yn Ysgol Cwm Rhymni yn astudio lefel A Cerddoriaeth, Drama a Chymraeg. Dechreuodd chwarae offer taro pan yn 9 oed drwy fyd y bandiau pres ac erbyn hyn mae'n aelod o fand Pres Tredegar, un o brif fandiau Cymru a Phrydain.  Bydd y band yn cynrychioli Cymru ym mhencampwriaethau bandiau pres Ewrop flwyddyn nesaf.




Mae Heledd hefyd ar ei hail flwyddyn fel aelod o Gerddorfa Ieuenctid Genedlaethol Prydain ac yn  edrych ymlaen at ddychwelyd i'r Albert Hall ym Mis Awst i gynnal cyngerdd yno fel rhan o'r BBC Proms.

Mae Heledd yn gobeithio parhau a'i hastudiaethau cerddorol mewn Conservatoire ym mis Hydref 2017 ac i ddilyn gyrfa fel cerddor proffesiynnol yn y dyfodol.

**Eisteddfod Genedlaethol Sir y Fflint 2016**

Bydd Eisteddfod yr Urdd 2016 yn cael ei chynnal ar dir Ysgol Uwchradd Y Fflint rhwng 30 Mai a 04 Mehefin. Pob lwc i bawb sydd yn cymryd rhan o Ranbarth Gwent. Bydd canlyniadau a lluniau ar gael yn y rhifyn nesa. Yn y cyfamser gellir dilyn y newyddion o'r Maes ar wefan yr Urdd sef www.urdd.cymru/eisteddfod neu lawrlwytho AP yr Eisteddfod. Mae'r ap yn cynnwys y rhaglen gyfan o gystadleuthau, pob canlyniad, a'r holl weithgareddau o gwmpas y Maes. Dyma linc i ganlyniadau cenedlaethol celf a chrefft 2016 https://www.urdd4.org/canlyniadau/canlyniadaucdt2016lluniau.a5w




***Tîm pêl droed merched Ysgol Trelyn***

## SWYDDOG IEUENCTID YR URDD YN ARDAL CAERFFILI

Ers dros flwyddyn nawr mae Mared Jones wedi bod yn gweithio fel Swyddog Ieuenctid gyda'r Urdd yn ardal Caerffili. Mae Mared yn gweithio'n agos iawn gyda disgyblion Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn Gelli Haf a'r Gwyndy ac yn y broses o ddatblygu perthynas gyda'r ysgolion cyfun ail iaith yn yr ardal hefyd. Dyma ychydig o hanes gwaith Mared dros y misoedd diwethaf:

Mae llawer o bethau wedi bod yn digwydd ers mis Medi. O ddiwrnodau pontio, sesiynau ymwybyddiaeth iaith, teithiau undydd a theithiau tramor, mae wedi bod yn gyfnod prysur iawn. Fel swyddog ieuenctid yr Urdd un o fy mhrif ddyletswyddau yw hybu'r iaith Gymraeg tu allan i'r ysgol, drwy gynnig nifer o weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r clybiau eleni wedi bod yn llwyddiannus tu hwnt. Mae dros 30 yn mynychu Clwb Ieuenctid yr Urdd yn y YMCA ym Margod ac mae Aelwyd yr Urdd yn Y Gwyndy hefyd yn cwrdd yn wythnosol. Mae'r ddau glwb yn gyfle arbennig i ddisgyblion ymlacio a chymdeithasu gyda ffrindiau tu allan i'r ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mi fydd y ddau glwb yn parhau ym mis Medi, felly os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â fi.

Rydyn ni eisoes wedi bod ar ein taith dramor i Baris eleni, ac roedd yn llwyddiannus tu hwnt. Ac rydym ni'n edrych ymlaen yn fawr i fynd â chriw o'r ardal i Catalunya eleni eto ym mis Gorffennaf, gan ymweld â dinas Barcelona â'i holl atyniadau. Caiff y disgyblion gyfle i gwrdd â chriw o aelodau'r Urdd o ardaloedd eraill sydd yn derbyn addysg Gymraeg. Mae llawer o bethau ar y gweill gyda ni o nawr tan ddiwedd y tymor, felly cadwch lygaid allan am weithgareddau llawn hwyl a sbri! Gan edrych ymlaen at holl weithgareddau y misoedd nesaf, cofiwch: peidiwch ag oedi cyn cysylltu am unrhyw wybodaeth.'

Mared Jones, Swyddog Ieuenctid, Urdd Gobaith Cymru,Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Stryd Bryn Gwyn, Gelli Haf, Y Coed Duon, NP12 3JQ. Symudol 07976003347

# Clecs y Castell!

**Sul yr Urdd**

Braf oedd gweld disgyblion Ysgol Y Castell yn canu mawl i ddathlu Sul yr Urdd yng Nghapel Tonyfelin.



**Joio yn yr haul!**

Dyna le prysur oedd gardd yr ysgol fore Dydd Sadwrn gyda phawb yn mwynhau'r garddio a'r heulwen . Diolch i Miss Collier a Mrs Godfrey am wneud y trefniadau. Roedd yn fore hwylus gyda phlant, rhieni ac athrawon yn gweithio'n galed er mwyn gwella amgylchfyd yr ysgol.





**Diolch CRhA– hetiau haul hyfryd!**

Diolch i'r CRhA mae pob plentyn yn y Cyfnod Sylfaen wedi derbyn het haul.

Allan a ni i fwynhau!

**Trip i Ganolfan yr Urdd, Caerdydd**

Cafodd aelodau'r Urdd ym mlwyddyn pedwar amser gwych yng Nghaerdydd yng nghanolfan yr Urdd yn y Bae.

Gweithgareddau gwych !
Bowlio deg, disgo, trip mewn cwch ac ar drên y bae ond i enwi rhai o'r gweithgareddau oedd wedi eu trefnu ar eu cyfer. Roedd pawb yn wên o glust.



## Canolfan Siloh –cau bwlch ym mywyd Cymraeg yr ardal

Ers i mi ymuno â staff Siloh rhyw dair blynedd yn ôl, mae ambell i berson wedi holi –'pryd mae'r gwasanaethau'n digwydd?', a minnau wedi gorfod eu siomi gyda'r ateb mai dim ond yn achlysurol y mae gwasanaeth o addoliad yn y Gymraeg yn cael ei gynnal yma ar hyn o bryd. Yn ein hoes fudol, gymudol, mae'n hollol arferol gyrru filltiroedd lawer ar gyfer ein siopa, ein gwaith, ein hamdden, a'n cyfarfodydd gyda theulu'r ffydd. Y mae'r gynulleidfa fu'n arfer cwrdd yma wedi gwasgaru i addoli mewn capeli eraill, a rhai eraill efallai fyddai wedi ystyried ymuno wedi edrych tuag at Bontypridd, Caerffili, neu Gaerdydd ar gyfer gwasanaethau yn y Gymraeg.

Serch hynny, mae yna ymwybyddiaeth gynyddol bod gwead cymdogaeth a ffyniant cymunedol yn dibynnu ar bobl yn gwreiddio o fewn eu 'milltir sgwâr', ac yn dod i nabod y cymdogion, y busnesau a'r cymdeithasau sydd nid nepell, neu gorau oll os o fewn pellter cerdded, o'r aelwyd. Mae'n galonogol iawn bod yna rwydwaith byrlymus yn ardal Ystrad Mynach sy'n cynnig cymaint trwy gyfrwng y Gymraeg –cylchoedd meithrin, ysgolion cynradd ac uwchradd, Ysgol Sul, gweithgareddau'r Urdd a Menter Cwm Rhymni, cylch hanes Cwm Ni, sesiynau Iwcs y Cwm, a mwy..Ond mae 'na fwlch o ran darpariaeth i'r rhai fyddai eisiau cwrdd yn lleol i addoli yn y Gymraeg (yn iaith gyntaf neu'n ddysgwyr) fel dilynwyr Iesu.

Mae Pwyllgor a staff Siloh, ers i'r adeilad gael ei addasu i fod yn Ganolfan Gymunedol Gristnogol, wedi cynnal cyrddau gweddi, astudiaethau Beibl, a gwasanaethau achlysurol yn Siloh yn rheolaidd. Y weledigaeth a'r dyhead yw medru tyfu cynulleidfa o'r newydd, wedi'i gwreiddio ar dystiolaeth cenedlaethau blaenorol i rym unigryw'r Gair, ond yn barod hefyd i arddel dulliau aml-gyfryngol a mynegiant holistig wrth gyfathrebu y Newyddion Da. Cyfarfodydd defosiynol o amgylch pryd o fwyd oedd nifer o rai'r cymunedau Cristnogol cyntaf, ac y mae tyfiant y diwylliant caffi yn ein cymunedau yn dangos yr awydd parhaol ym mhob cenhedlaeth i rannu amser, sgwrs, a chwmnïaeth dros baned a thamed.

Ar hyn o bryd, 'dyn ni'n cwrdd ar fore Llun cyntaf bob mis (heblaw am wyliau ysgol a gwyliau banc) i ystyried un o'r Salmau dros baned, ac i weddïo dros anghenion lleol a rhyngwladol. Mae'r ddau Saib@Siloh nesaf am **10.30 y bore dydd Llun 4 Gorffennaf**, a **bore Llun 5 Medi**.

Croeso i bawb – yn cynnwys dysgwyr – i ymuno a ni. Croesawn hefyd syniadau a thrafodaethau i ystyried posibiliadau eraill yn Siloh – e.e. cyfarfodydd gyda'r nos, neu rhai addas i bob oedran yn ystod y penwythnos.

Tamsin Llwyd Graves www.siloh.co.uk

### Cofio Iris Owens

Ar ddechrau mis Mai daeth y newyddion erchyll bod menyw wedi'i llofruddio yn Ystrad Mynach. Roedd yn ergyd ofnadwy pan ddarganfyddais yn ddiweddarach taw Iris Owens oedd y fenyw dan sylw.

Roeddwn i'n nabod Iris fel un o ddysgwyr y cwm oedd wrth ei bodd yn mynychu digwyddiadau Cymraeg. Cwrddais i â hi am y tro cyntaf yn y bore coffi yn Wetherspoons, Caerffili. Wedyn dechreuodd hi ddod i'r Clwb Darllen a gynhelir unwaith y mis yn llyfrgell Caerffili. Yno cawson ni ein diddanu gan ei straeon difyr am ei phlentyndod yn "Yr Hen Dŷ" – sgwrs oedd hi wrthi'n pharatoi ar gyfer dysgwyr.

Os cawsoch chi gyfle i ymweld â'r maenordy yn Llancaeach Fawr amser Eisteddfod yr Urdd y llynedd, mae'n debyg i chi gael sgwrs gyda "Meistres Eira"; dyna oedd enw Iris fel menyw o'r unfed ganrif ar bymtheg yn ei gwisg hanesyddol. Roedd hi'n falch iawn o allu siarad Cymraeg gyda'r ymwelwyr. *Jan Penny*

## Oedfaon Sul o Fawl Eglwysi Cymraeg Caerffili a'r Cylch



Cynhaliwyd yr uchod ar Ddydd Sul, 15 Mai, am 10.30 yn Nhonyfelin ac am 6 ym Mryn Seion Ystrad Mynach.

Yn ôl eu harfer ers sawl blwyddyn bellach, daeth nifer o blant ysgolion Cymraeg lleol a'u rhieni ( a disgyblion ysgolion Sul lleol) ynghyd i ganu mawl ar fore Sulgwyn / Pentecost a dechrau wythnos Cymorth Cristnogol.

Arweinydd y gân oedd Anne Evans, Helen Hollyman wrth yr organ a'r Parch. Milton Jenkins yn llywyddu.

*Y Parchedig Gwilym Dafydd*

**Oedfaon Mis Mehefin yng nghapeli Cymraeg Caerffili**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Tonyfelin | | | Bethel, Heol Nantgarw | |
| **5ed** | **10.30 6.00** | Y Parch Milton Jenkins | | Y Parch Eirian Rees (Cymun yn yr hwyr) | |
| **12fed** | **10.30 6.00** | Marc John Williams | **10.30** | Gwasanaeth Cymraeg (i'w gadarnhau) | |
| **19eg** | **10.30 6.00** | Ymuno â Bethel | | Eirwen Richards | Ruth Starr |
| **26ain** | **10.30 6.00** | Y Parch Milton Jenkins | **10.30** | Y Parch Glyn Tudwal Jones | |

## Cofio Mrs Ivy Pedrick, Lon-y-llyn

Ychydig dros hanner can mlynedd yn ôl, dychwelodd Ivy a Harvey Pedrick i fyw i Dde Cymru a hynny ar ôl cyfnod yn gweithio yn Surrey. Un o ferched Rhydaman oedd Ivy, a thra yn Ne Lloegr, ganwyd eu dau fab, Kevin a Timothy. Ymhen amser, ymunodd Ivy gydag Ysgol Gymraeg Parc y Felin, Caerffili yn nyddiau cynnar yr ysgol. Yn ddiweddarach, derbyniodd gyfle i hyrwyddo'r Ysgol Feithrin yn Nhonyfelin gan gyfrananu'n sylweddol i dwf addysg Gymraeg yn y dyddiau cynnar.

Roedd y teulu'n bopeth iddi, a chadw tŷ oedd ei balchder pennaf. Ymfalchïai yn llwyddiant proffesiynol ei phriod ac roedd wrth ei bodd pan dderbyniodd swydd prifathro yn Llanbradach. Byddai'n sôn yn gyson am ei phlant a'i hwyrion, ac roedd wrth ei bodd gyda llwyddiant Harvey wrth iddo arddangos blodau mewn sioeau. Cafodd fyw i ddathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol a chydymdeimlwn gyda'r teulu oll yn eu hiraeth amdani. Bu'n aelod yn Nhonyfelin am flynyddoedd, ac roedd yn falch o'i chysylltiad gyda'r Eglwys Fedyddiedig yn Rhydaman a gyda'r gweinidog yno adeg ei hieuenctid, sef y Parchg E. Llwyd Williams.

*Y Parchedig Denzil John*



# Fy Mlog o Dde America (Rhan 3)

gan Gareth Williams

Yn wahanol i Rio, mae Buenos Aires yn grand, yn llydan yn Ewropeaidd ac yn wyn. Mae'r crandrwydd gan fod nifer o arweinwyr unbenaethol y wlad am ddangos eu rhodres wrth adeiladu'r ddinas gymharol



ifanc hon a gan fod cymaint o bobl o Ewrop wedi ymfudo i'r Ariannin. Mae'r gwynder oherwydd bod llawer o gaethweision, er eu rhyddhau yn gynnar yn y bedwardd ganrif ar bymtheg, wedi marw mewn rhyfeloedd (gan fod gwasanaethu fel milwr yn bris am gael rhyddid) neu wedi trengi oherwydd clefydau fel y pla melyn a effeithiodd yn andwyol ar y tlodion du. Ymfudodd llawer i Frazil hefyd. Does fawr o ôl y trigolion brodorol, gwreiddiol chwaith gan i'r llywodraethwyr fynnu eu difa. Hanes cythryblus sydd i'r wlad enfawr hon. Diolch i'r drefn bod oes oleuach wedi gwawrio pan gyrhaeddon ni yno.

Mae tri pheth sy'n rhaid i chi eu gwneud yn Buenos Aires: bwyta stecen, gwylio neu wneud dawns tango a gweld y fan lle traddododd Eva Peron ei hareithiau enwog i'w dilynwyr brwd. Llwyddon ni i wneud pob un yn yr amser prin oedd ganddon ni yno. .



Roedd perlau Patagonia i ddilyn maes o law, wedi ymweliad byr â Montevideo



Mae'r argraff sy ganddon ni o Uruguay yn deillio o'r unig berson mae'n debyg y gwyddon ni amdano sy'n hanu o'r wlad, sef Luis Suárez a frathodd chwaraewr arall tra'n chwarae dros ei wlad yn erbyn yr Eidal. Lle anwar meddech chi. Dim byd o'r fath. Mae Uruguay yn nefoedd fechan o wareiddiad ar y cyfandir: y lleiaf o wahaniaeth rhwng tlawd a chyfoethog, y lleiaf o droseddu, yr addysg rad orau a medden nhw, os oes rhaid i chi fod yn sâl yn Ne America, byddwch yn sâl yn Uruguay. Disgrifir y cyn arlywydd **José Mujica** fel Mandela'r cyfandir. Roedd yn mynd i'w waith mewn hen VW yn gwisgo sandalau. Symudodd o ddim i balas yr arlywydd a mynnodd aros ar ei fferm. Tipyn o foi, a thipyn o wlad hefyd! Ddim yn arbennig o gyfoethog ond yn ddirodres a hawddgar dros ben. Efallai i chi glywed am suddo llong y Graff Spee yno. Mae ei holion







Gan nad yw Prydain a'r Ariannin yn rhy gytun ar berchnogaeth Ynysoedd y Falkland/ Y Malvinas, rhaid oedd hwylio o wlad arall, sef Uruguay, i gyrraedd yno. Roedd gan y ddwy wlad bwynt wrth fynd i ryfel ym 1984; cadw trigolion yr ynys o afael y gormeswr Galtieri (a chadw Mrs Thatcher mewn grym efallai) oedd y ddadl ar y naill ochr; a'r ffaith bod yr ynysoedd nemor dafliad carreg o arfordir yr Ariannin oedd y ddadl arall.

Rhaid dweud mai teimlad od oedd cyrraedd pentref na fyddai wedi bod allan o'i le ym Mhen Llŷn neu Sir Fôn wedi teithio bron i wyth mil o filltiroedd trwy ddiwylliant De America. Roedd y tywydd yn anarferol o fendigedig ar achlysur ein hymweliad byr. Cefais beint mewn dwy o'r tair tafarn sydd ym Mhort Stanley a chwrdd â rhai o'r brodorion. Roeddent bob un yn ymhyfrydu yn eu hunaniaeth Brydeinig a'u gallu i dalu am ac edrych ar eu hôl eu hunain trwy werthu'r hawl pysgota i Japan yn flynyddol a manteisio ar deithwyr niferus sydd bellach yn ymweld â'r pengwiniaid. Prin y byddai hynny'n talu am y cannoedd yng ngwersyll Mount Pleasant oedd yn eu gwarchod, greda i.

Wrth ymadael, cofiais bod Prydain wedi gorfodi dwy fil o bobl dduon o ynys Diego Garcia ym Môr India er mwyn i'r Unol Daleithiau gael gorsaf yno yn1973. Roedd tic rhif dau wedi ei roi yn y bocs ysywaeth.




Ymlaen i Punta Arenas ac Ushuaia trwy gulfor Magellan ac wedyn trwy sianel Beagle. Bobol dyna i chi olygfeydd! Os cewch chi siawns, ewch. Cewch wledd o fynd am gannoedd o filltiroedd trwy fijords diddiwedd heb weld yr un copa walltog nac annedd ar y ffordd a chyrraedd pen draw byd. Bobol, mi oedd yr arloeswyr cynnar yna ganrifoedd yn ôl yn fois glew! Dim map na sat-nav i ddangos y ffordd.



Digon di-nôd ydy Ushuaia, heblaw am y ffaith bod yna glamp o dic cysyniadol ar y prom yn barod i'w osod yn ei focs. Mi ydw i wedi cyrraedd diwedd y byd! Mae hi'n bwrw glaw yno am dri chan niwrnod y flwyddyn yn ôl pob sôn! Roedd hi'n tresio bwrw pan gyrhaeddon ni. Oddi yno mae llongau i deithwyr ymadael i fynd i'r Antartig ac eraill fel ein Marco Polo ni i fynd rownd yr Horn ar Fflat Huw Puw ac ymlaen i'r Wladfa.




O ie, feddylioch chi fel fi mai'r penrhyn yna sy'n edrych fel corn ar waelod De America yw Cape Horn? O na. Penrhyn arall ar Isla Hornos ydy o, ond mae'r môr yn hyrddio yr un fath yn y fan honno hefyd!

# Syr Benjamin Hall neu “Big Ben”



Daeth Benjamin a Charlotte Hall i fyw yn Abercarn ar ystad a brynwyd ar eu cyfer yn 1808 gan Richard Crawshay, tad Charlotte. Benjamin oedd enw eu mab hynaf hefyd, addysgwyd ef yn Westminster School ac yn 1820 aeth i Goleg Eglwys Crist yn Rhydychen. Er ei addysg Seisnig, ffurfiol, darllenwn ei fod yn hoff iawn o gefn gwlad a daeth yn fedrus iawn mewn nifer o sgiliau’r awyr agored.

Gadawodd Rydychen heb raddio a mynd ati i deithio gyda’i gefnder. Bu ar draws Cymru, Lloegr a’r Alban. Yr hyn oedd o ddiddordeb mawr iddo yn Plymouth oedd y cadwyni trymion a ddefnyddiwyd yn y dociau, a dywedodd wrth ei gydymaith taw gwneuthurwyr y cadwyni hyn oedd gwaith “*who rents my small iron works at Ynys Llanharad (Angharad)in Glamorganshire*”. Mae’n weddol sicr mai cyfeirio oedd at y gwaith a ddaeth yn adnabyddus, yn y pen draw, fel Brown Lennox, lle cynhyrchwyd y tshaenau ar gyfer y Titanic. Siop Sainsbury sydd yno bellach ond gwelir model anferth o long ar y cylchdro y tu allan i’r siop. Mae’n arwyddocaol i Benjamin, yr adeg hon, ymweld â threflan y Cymro Robert Owen yn Lanark ac i “hapusrwydd y gweithwyr” yno wneud argraff ddofn arno.

Dathlwyd “dod i oed” Benjamin mewn steil oludog iawn yn Abercarn, diolch efallai i’r ffaith iddo ofyn i ferch teulu’r Waddingtons ymgymryd â’r trefniadau. Augusta oedd hon, wrth gwrs ac achoswyd cryn embaras iddi hi a Benjamin pan gynigiodd Syr Charles Morgan lwncdestun gan gyfeirio at, “*an event likely soon to take place when the young lady on the left side of the table would take the name of the worthy host.”*


A gwireddwyd y darogan wrth i’r pâr ifanc briodi ar y 4ydd o Ragfyr 1823. Pan ddaeth i oed roedd Benjamin yn gymwys i etifeddu eiddo ei dad a chafodd dir ac eiddo yn Rhymni, Hensol a Phontypridd.

Cafodd Benjamin yrfa wleidyddol lewyrchus iawn. Yn gyntaf daeth yn Aelod Seneddol - Rhyddfrydol, neu *Whig*, wrth gwrs.  Yn 1831 enillodd sedd Bwrdeistrefi Mynwy ond heriodd ei wrthwynebydd ei fuddugoliaeth a phenderfynodd pwyllgor yn Nhŷ’r Cyffredin nad oedd ei etholiad yn gyfreithlon.  Bu etholiad pellach yn 1832 ac enillodd eto gan ddal y sedd tan 1835.

Daliodd ei afael yn sedd Marylebone yn Etholiad 1847, y flwyddyn y sefydlwyd Coleg Llanymddyfri ar dir a roddwyd gan Foneddiges Llanofer. Hon hefyd oedd blwyddyn Brad y Llyfrau Gleision.

Treuliodd gyfnod yn *First Commissioner of  Works*. Ac mae stori hir am y ffordd y trosglwyddwyd y gloch o ffowndri yng ngogledd Lloegr i ddod yn rhan o’r cloc ym Mhalas San Steffan. Yn wir, torrwyd y gloch gyntaf a bu’n rhaid mynd drwy’r holl broses drachefn o ddod â chloch arall lawr i Lundain.  Fel rhan o’i swydd gwnaeth lawer i fwyhau'r ddarpariaeth o barciau yng nghanol Llundain. Bu’n gydwybodol wrth lunio rhaglen o blannu coed, llwyni a blodau. Yn wir, mae tystiolaeth i ansawdd y parciau hyn ddirywio pan apwyntiwyd rhywun arall yn ei le fel *First Commissioner of Works*.





*Yr Eglwys yn Abercarn*

Yn ystod ei yrfa wleidyddol gwnaeth lawer i liniaru ar effaith y *Truck Shops* anghyfiawn ar weithwyr, drwy ddod â Deddf Trwcio (1831) o flaen y Senedd. Bu'r system o drwcio annheg yn fodd o ychwanegu at dlodi gweithwyr. Brwydrodd hefyd i sicrhau'r hawl i Gymry addoli yn eu hiaith eu hun. Ei bryder, fel eglwyswr, oedd bod nifer o'r Cymry yn troi at y capeli er mwyn gallu addoli yn y Gymraeg. Er mwyn unioni'r cam, sefydlodd eglwys yn Abercarn ond pan wrthododd yr Eglwys Wledig ag apwyntio ficer a fedrai'r Gymraeg, trosglwyddodd Syr Benjamin yr adeilad at ddefnydd y Methodistiaid.

Ar y 4ydd o Orffennaf 1859 cymerodd Arglwydd Llanofer, Benjamin Hall y teitl *Baron Llanover of Llanover and Abercarn* a chymryd ei sedd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Bu farw, ar y 27ain o Ebrill 1867 yn 9 Great Stanhope Street yn Llundain.

## Merched y Wawr

**Dydd Sadwrn, 18 Mehefin**
**Trip Haf i'r Fenni**

Cawn dipyn o hanes yr ardal pan fydd Dr Elin Jones yn ein tywys ar daith gerdded oddi amgylch y Fenni a'r cylch ar drothwy Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffuniau. Ymunwch â ni yn y Fenni neu os oes angen lle mewn car, rhowch wybod. Cawn swper cyn dychwelyd.

**10.00**: Gadael Caerffili ac Ystrad Mynach

**11.00** (nid 10.00 fel yr hysbyswyd o'r blaen): cwrdd yn yr Ysgubor Ddegwm, Monk Street, NP7 5ND, ger Eglwys Priordy'r Santes Fair, am ddisgled / teisen / cinio cynnar ysgafn. Mae digon o ddewis am bris teg. Os ydy'n rhy gynnar i chi gael rhywbeth i'w fwyta, bydd digon o ddewis o lefydd addas ar hyd y lle i chi drwy'r prynhawn.

Cyn dechrau ar ein taith, cawn gip ar y Tapestri lan llofft yn yr Ysgubor.

Oddeutu **12.30**: Dr Elin Jones yn ein tywys o amgylch y Fenni gan roi blas i ni o hanes yr ardal.

Wedi hynny, cewch gyfle i siopa neu mae croeso i chi fynychu rhagbrofion cystadlaethau oedolion Eisteddfod flynyddol y Fenni yn Nghapel y Methodistiaid, Heol y Castell (mynediad yn rhad ac am ddim). Gwybodaeth bellach i'w chael ar y wefan http://www.abergavennyeisteddfod.co.uk/cymraeg/index.php

**6.00:** Pryd o fwyd yn La Brasseria Italiana, Lewis Lane, NP7 5BA.

**Meysydd parcio drwy'r dydd yn y Fenni:**
Gorsaf Bysiau, Monmouth Road, NP7 5HP; Fairfield, Park Avenue, NP7 5TR;

## Prifddinas golledig? *gan Dr Elin Jones*

Caerffili yw prifddinas ein cwm ni, mae'n debyg. Enw'r dref honno sydd ar y fwrdeistref sirol a'r etholaeth. Mae'r castell a'i dŵr cam yn ddelwedd gyfarwydd i gynrychioli'r ardal gyfan. Er taw afon Rhymni sy'n rhoi ei henw i'r cwm ei hun, mae tref Rhymni wedi hen golli'r diwydiannau a'r prysurdeb economaidd a'i gwnaeth yn brifddinas y cwm ddwy ganrif yn ôl. Tref farchnad fechan oedd Caerffili yn y dyddiau hynny, yn enwog am ei marchnad gaws.

Ond yng nghanol y cwm mae pentref bychan fu unwaith yn haeddu'r teitl 'prifddinas'. Beth sydd yn gwneud tref yn brifddinas? Yn sylfaenol, eglwys gadeiriol ac, o'i chwmpas, prif adeiladau'r awdurdod sy'n rheoli'r ardal. Mae prifddinasoedd Ewrop gyfan yn dilyn y patrwm hwn, sy'n ein hatgoffa o bwysigrwydd allweddol yr eglwys Gatholig yn y dyddiau a fu. Wedi'r cyfan, olynydd yr Ymerawdwr Rhufeinig yw'r Pab, ac mae enw ei eglwys yn ein hatgoffa o hynny. Yr Eglwys Gatholig Rufeinig ydyw hyd heddiw. Mae llawer o'r prifddinasoedd hyn hefyd wedi eu codi ar seiliau Rhufeinig.

Mae'r un cysylltiad rhwng y Rhufeiniaid ac awdurdod â grym i'w ganfod yn llawer o drefi a dinasoedd Cymru hefyd. Gwelir hynny'n glir yng Nghaerffili ei hun, gyda'r castell wedi ei adeiladu ar sail caer Rufeinig, a'r hen lysoedd barn yng nghysgod y castell. Yng Nghaerdydd eto, mae'r welydd cedyrn a godwyd gan yr Ardalydd Bute ar seiliau welydd y gaer Rufeinig yn dominyddu canol y brifddinas, ac yn amgylchynu gweddillion y castell Normanaidd. Gerllaw'r 'gaer' mae adeiladau'r ganolfan ddinesig – y llysoedd barn, pencadlys yr heddlu, hen neuadd y ddinas, yr Amgueddfa Genedlaethol – pob un yn adlewyrchu agwedd ar awdurdod. Mae'r castell a swyddfeydd y sir yng Nghaerfyrddin hefyd wedi eu codi ar seiliau'r gaer Rufeinig yno. Mae patrwm strydoedd Caerfyrddin heddiw yn dal i ddilyn rhai'r hen gaer, ac yn arwain yn syth at eglwys fawr Sant Pedr. Codwyd yr eglwys honno ar safle prif deml y gaer baganaidd.

Ond beth am y pentref bach dinod yn ein cwm ni? A fedrwch chi, ddarllenwyr hyddysg y papur hwn, ddyfalu pa bentref sydd gen i dan sylw? Pentref yn ein cwm sydd â chaer Rufeinig yn ei chanol, eglwys hynafol wedi ei chodi wrth ei hochr ac olion castell gerllaw? Unwaith, fil a rhagor o flynyddoedd yn ôl, roedd teithwyr yn mynd o Gaerdydd i gaer Aberhonddu trwy bentref Gelligaer. Cadog yw nawddsant yr eglwys yno, sant a gysylltir yn aml gydag eglwysi a sefydlwyd yn gynnar iawn. Yno, yng Ngelligaer, bum can mlynedd wedi i'r lleng filwyr adael, y dewisodd y tywysog Ifor Bach a'i ddisgynyddion adeiladu'r castell a fu'n bencadlys iddynt. Yma yng Ngelligaer roedd prifddinas eu tiroedd, sef cantref Senghennydd, y 'cantref breiniol' yn ôl yr hen ddogfennau.

O'u cadarnle ar y bryniau y bu Ifor a'i ddisgynyddion yn arwain eu cyrchoedd yn erbyn eu gelynion, o ddyddiau cynnar ymosodiadau'r Normaniaid tan 1317 pan ddewisodd Llywelyn Bren ildio er mwyn osgoi peri rhagor o ddioddefaint i'w bobl. Rhan o broses oesol goresgyniad yw'r broses o droi Gelligaer yn bentref bach dinod, ond y mae yno o hyd fel ffosil prifddinas. Ond tybed ai hedyn yw, yn hytrach na ffosil - yn crynhoi ac yn cadw holl nodweddion dinas at y dyfodol pell?


### Dr Geraint Preest

Dyfarnwyd Cymrawd FRCGP i Dr Geraint Preest, yng Ngholeg Brenhinol y Meddygon Teulu ym mis Mai eleni. Mae Geraint ar hyn o bryd yn bartner yng Nghanolfan Feddygol Pencoed,



Un o'r plant fu dan ofal Mrs Eirlys Thomas oedd Geraint ym 1969 pan oedd uned Gymraeg yn Ysgol Gogledd Bargod, Usk Rd, cyn iddi symud i safle presennol Ysgol Gymraeg Gilfach. Aeth ymlaen i Ysgol Gyfun Rhydfelen a Choleg Prifysgol Cymru Caerdydd, lle gafodd ei BSc Ffarmacoleg ac ar ôl hynny, i'r Ysgol Feddygol, lle gafodd ei dderbyn yn feddyg ym 1992.


# Colofn Dafydd Islwyn



Bûm yn darllen "Cribinion", casgliad o englynion a cherddi Dafydd Wyn Jones, Bro Ddyfi. Hoffais ei englyn "Ystyriwch......"

Oes yn wir mae gwers i ni – euogion
Yn nhegwch y lili,
Yn aberth drud y pabi
Yn ffoli'r dlos Fleur-de-lis.

Ar unwaith, o ddarllen yr enw Fleur-de-lis, cofiais dri pheth amdano. Pentref yng Nghwm Rhymni, Y Genedlaethol 1917 ac eglwys ar Ynys Môn. Dim ond un frawddeg a ysgrifennodd T. I. Ellis yn ei gyfrol "Crwydro Mynwy" 1958: Y lle nesaf ydyw Fleur-de-lis neu'r "Flower", cynigwyd gwahanol esboniadau ar darddiad yr enw hwn! Ddwy flynedd yn ôl, cyhoeddwyd "Enwau lleoedd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili" gan David Thomas ar ran y Cyngor - llyfryn a ddylai fod ymhob cartref yn y sir. Ceir esboniad trwyadl am Flower ar lafar: "Rhoddwyd yr enw i'r pentref yn yr ail ganrif ar bymtheg gan yr Hiwgenotiaid o Ffrainc a oedd wedi ffoi rhag yr erledigaeth grefyddol yn eu gwlad. Roedd yr enw yn ddolen gyswllt bwysig rhyngddynt â'u mamwlad goll." Yr Hiwgenotiaid yn ôl y traddodiad lleol a sefydlodd y gwaith sbelter yn yr ardal, fel y cofnododd Gareth Pierce yn ei gyfrol "Nabod Cwm Rhymni" Mai 1990.



Eisteddfod Genedlaethol 1917 yn Birkenhead ydy un o eisteddfodau amlycaf yr hen ganrif. Eisteddfod y Gadair Ddu oherwydd,

Fe ganwyd yr utgorn a threfnwyd y cledd,
Ond gwag ydyw'r Gadair a'r Bardd yn ei fedd.



***Croes Credifael***

Cynhaliwyd hi ar y 5ed, 6ed a'r 7fed o Fedi 1917. Bum wythnos ynghynt ar faes y frwydr yng Nghefn Pilckem fe laddwyd Hedd Wyn, y bardd buddugol. Ei ffug enw yn y gystadleuaeth oedd Fleur-de-lis, blodyn a gysylltir â Ffrainc. Yn ôl "Enwau Lleoedd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili" ystyr llythrennol yr enw ydy "Blodyn Bywyd".



***Eglwys Sant Credifael, Penmynydd, Môn***

Ychwanegwyd yn yr esboniad: Daw'r symbol o'r hen Aifft yn wreiddiol, a llawer yn ddiweddarach fe'i mabwysiadwyd gan deuluoedd brenhinol Ffrainc." Dyma'r cysylltiad ag Eglwys Sant Credifael, Penmynydd, Ynys Môn. Eglwys yr ymwelodd Bobi Jones â hi wrth "Grwydro Môn" yn 1957. Meddai:

"Mae eglwys Credifael bellach yn pwngan gyda'i pherthynas Duduraidd a'r fleur-de-lis ar y seddau (arfau teulu brenhinol Lancastraidd mewn un ffenestr). Cyfnod Owain Tudur oedd 1400-61, taid y brenin Harri'r Seithfed." Ym mynwent yr eglwys hon y claddwyd aelodau o fy nheulu ar ochr fy nhad. Ynddi y bedyddiwyd David Islwyn Hughes gan y Parchedig David Williams - does dim cofnod gennym o'r union ddyddiad!!

# Colofn y Dysgwyr *gan Ann Lewis*

Helo bawb. Dim stori y tro hwn ond pôs. Mae dwy wraig yn cwrdd wrth arosfan y bws ond mae bylchau ( *gaps* ) yn eu sgwrs. Llenwch y bylchau â'r geiriau ar y gwaelod:

*Noswaith dda. Sian dw i. Sut dych chi?*

Helo Sian. …………………………….dw i a dw i'n …………………………………………..

*Dych chi'n byw yng…………………………………………………….?*

Nag ydw. Dw i'n byw yng Nghaerdydd ond dw i'n dod yn ………………………..o Bedwas. A chi?

*Dw i'n byw yn Llanbradach.*

Ble dych chi'n…………………………………..Sian?

*Mewn banc yng Nghaerffili.*

O, dw i'n gweithio mewn……………………………………Oes teulu gyda chi?

*Oes, mae un ferch ac un…………………………. gyda fi.*


Does dim ………………………………gyda fi ond mae cath a ci gyda fi.

*Mae hi'n ………………………….. heddiw.*

Ydy. O, dyma'r bws. ……………………………………………

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *swyddfa* | *Blodwen* | *Hwyl fawr* | *gweithio* | *mab* |
| *Nghaerffili* | *braf* | *wreiddiol* | *iawn* | *plant* |

## Y Llinach




Dyma ail nofel yr awdur o Nelson, Gareth W Williams, yn adrodd hanes cythryblus Arthur Goss. Mae Goss wedi ymddeol o'r heddlu erbyn hyn ond nid o'i ddiddordeb ym mhentref glan môr Y Berig. Bydd darllenwyr y nofel gyntaf, Y Teyrn, yn cofio mai menter y teulu Ap Brân yw'r Berig, tref fach sy'n baradwys ar un olwg, lle prydferth, llewyrchus, tawel a di-drosedd – ond am ba bris? Pa ddrygioni sy'n llechu yn y cefndir?

Ar ôl gwella o salwch difrifol a chyfnod yn yr ysbyty, mae Goss yn benderfynol o ddarganfod y gwirionedd y tu ôl i lwyddiant Y Berig ond nid yw ei berthynas â Branwen, merch y teulu, yn gwneud hyn yn rhwydd. Ymhen hir a hwyr, yn nhraddodiad y nofel dditectif, caiff y dihirod eu haeddiant – fwy neu lai – ond nid yw stori'r Berig ar ben eto!

Mae'n nofel gyffrous, afaelgar dros ben a'r cymeriadau'n gredadwy ac apelgar. Pleser pur oedd ymgolli yn anturiaethau Arthur Goss : mae gwir angen nofelau fel hon yn Gymraeg . Darllenwch hi!

Gyda llaw, ceir awgrym bach ar ddiwedd y nofel bod mwy o hanes Arthur Goss i ddod. Prysured y dydd ddweda i!

*Ann Lewis*


menter caerffili. cymru
Ffiliffest 2016
DIWRNOD AM DDIM I'R TEULU! FREE DAY OUT FOR THE FAMILY!
25/06/2016 • 10:30-16:00
CASTELL CAERFFILI CAERPHILLY CASTLE
Dawnsio Gwerin 10:30 Folk Dancing
Martyn Geraint 11:30
Band Pres a Band Gwerin Nantgarw - Brass Band and Nantgarw Folk Band
Perfformiadau ysgolion – School performances
Perfformiad byw John Nicholas Live Performance 2:00
Perfformiad byw Clinigol Live Performance 2:30
Gweithdy Band Samba - Samba Band Workshop
Pabell celf a chrefft - Arts and craft tent
Ardal chwaraeon - Sports area
Ardal gemau fideo – Video games area
Sinema plant bach – Toddlers cinema
Bwyd, diod a stondinau - Food, drinks and stalls
mentercaerffili.cymru
CEFNOGIR GAN CYNGOR TREF CAERFFILI
SUPPORTED BY CAERPHILLY TOWN COUNCIL
Cadw
S4C
BRECON CARREG
digital systems UK

mentercaerffili.cymru

Clwb Cerdded/Walking Club Dydd Mercher/Wednesday 10-12

## CLWB CERDDED

Am raglen teithiau cerdded mis Mehefin ewch i wefan Menter Iaith Sir Caerffili neu cysylltwch â Morgan Roberts - Swyddog Prosiect Llais Menter Caerffili: 01443 802832

Ar y dydd 07835877612

morganroberts@mentercaerffili.cymru

## Clwb Llyfrau "Cwm*ni*"

**Tŵr y Lyfrgell NEWYDD**

Caerffili

2 o'r gloch

**Mehefin 6ed**
"A Oes Heddwas" Myfanwy Alexander
**Gorffennaf 11eg**
"Beti Bwt" gan Bet Jones
**Medi 5ed**
Llwch yn yr Haul" Marlyn Samuel

Croeso cynnes i Gymry Cymraeg a dysgwyr profiadol.

Manylion:02920889827
JanPenney@aol.com

## COLEG GWENT

### Ysgolion Haf

30 awr ar 8 lefel
14awr o wersi anffurfiol
01495 333710

**Campws Pontypŵl**
Llun- Gwen 8.45-17.00 25-29/07/16

**Llanbed**
Gwen-Sul 9.00-17.00 01-03/07/16

LLANCAIACH FAWR MANOR
MAENORDY LLANCAIACH FAWR

## Dehonglydd Hanesyddol
## ( trwy gyfrwng y Gymreg a Saesneg)
**24 awr yr wythnos**

Profiad Hanesyddol Byw wedi ennill dyfarniadau yw Maenordy Llancaiach Fawr sy'n derbyn dros 60,000 o ymwelwyr bob blwyddyn ac sy'n atyniad treftadaeth fawr yn Ne Cymru.

Mae angen Dehonglydd Hanesyddol Cymraeg/Saesneg i ddarparu profiad hanes person 1af ar gyfer ystod o gynulleidfa (gan gynnwys grwpiau ysgol, ymwelwyr yn ystod y dydd a'r hwyrnos) o fewn lleoliad domestig 17eg ganrif.

Bydd galw ar i ddaliwr y swydd ymchwilio a datblygu rôl gwas neu forwyn o fewn y cartref yn 1645. Bydd yn rhaid dangos y canlynol: diddordeb brwd mewn hanes; y gallu i gyfathrebu'n wych yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y ddwy iaith; sgiliau rhyngbersonol ardderchog; y gallu i addasu cyflwyniadau i amryw gynulleidfaoedd ar sail oed, lefel diddordeb a gwybodaeth a'r gallu i ddysgu; ymroddiad wedi'i brofi i ofalu am gwsmeriaid a 'mynediad i bawb' a sgiliau ymarferol mewn crefftau hanesyddol. Byddai profiad blaenorol o ddehongliad hanesyddol neu berfformiad cyhoeddus yn ddymunol ond darparir hyfforddiant.

Mae hyblygrwydd yn hanfodol ar gyfer y swydd – gweithir bob yn ail ben wythnos a chyda'r hwyr yn ôl y galw. Mae amserau dechrau a gorffen yn ymateb i ofynion gweithredol, ond ar y cyfan byddant rhwng 10 a 2yp, dydd Mawrth i ddydd Gwener ac o 9 – 5 bob yn ail ddydd Sadwrn a Sul ac felly mae trwydded yrru a'ch cerbyd eich hunan yn ddymunol.


Os, wedi darllen y Disgrifiad Swydd a'r Fanyleb Bersonol, yr hoffech drafodaeth anffurfiol, wnewch chi gysylltu â

**Louise Griffiths** Rheolwraig Dysgu a Dehongli
Ar (Rhif Cysylltu ar y Ffôn) 01443 412248

I wneud cais ac i weld disgrifiad manwl o'r swydd, wnewch chi ymweld â gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.
Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Iau, 23ain o Fehefin 2016

*https://recruitment.caerphilly.gov.uk/ itlive_**web**recruitment/jobs.html*

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI




Côr Cwm Ni

**YMARFER**

Pob nos Fawrth yn Ysgol Trelyn

**7:00**

*Croeso i Aelodau Newydd!!*

## Clwb Clonc

Pob Nos Iau
17:45 – 18:45
**Tŷ Rhydychen, Risga**
helen.young@coleggwent.ac.uk




Nos Iau, Mehefin 9fed 2016

Ben Jones

yn rhoi hanes

## Morgan John Rhys

Clwb Rygbi Penallta
Ystrad Mynach

**7:00**

Ar gyfer Cymry Cymraeg a Dysgwyr lefelau Uwch/Hyfedredd




## Gŵyl Dewin a Doti 2016

**29/6 Green Meadow's Farm, Cwmbran**

£4 i blant ac oedolion
Am ddim i blant dan 2 oed





Am docynnau cysylltwch
Teleri.Jones@meithrin.cymru
Liz.Braun@meithrin.cymru
Gellir prynu tocynnau ar y diwrnod

## Llun y Mis



**“Edrych tuag at Machen” gan M.M. Jones yw llun y mis hwn**




Bethel, Heol Nantgarw, Caerffili

## Gŵyl Flodau Caerffili




**Dydd Gwener tan Ddydd Sul**
**24ain - 26ain o Fehefin**

**10:00—4:00**

Bydd arddangosfa ac arwerthiant lluniau gan Grŵp Arlunio Dydd Gwener

Am fwy o wybodaeth cysyllter â . *Events Hotline* y Cyngor 02920888777